

Annwyl Riant/Gofalwr/Gwarcheidwad,

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i chi am y gefnogaeth yr ydych wedi'i rhoi i'n hysgolion dros y misoedd diwethaf- gwn fod ein Penaethiaid a'u staff yn gwerthfawrogi eich cymorth. Mae wedi bod yn gyfnod anodd ac rwy'n siŵr y bydd yn parhau i fod yn heriol am ychydig fisoedd eto, fodd bynnag, drwy gydweithio rwy'n hyderus y byddwn yn llwyddo.

Yr wyf yn ymwybodol y bu trafodaeth yn y wasg ynglŷn â'r pwysau ar y system addysg ac awgrymiadau ynglŷn ag wythnos olaf y tymor. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a'r cyngor gwyddonol ysgrifennaf i gadarnhau y bydd ein **hysgolion yn aros ar agor tan y 18fed o Ragfyr yn ôl y bwriad**.

Nid ydym wedi gwneud y penderfyniad hwn heb ystyried popeth gan fy mod yn ymwybodol bod staff ein hysgolion dan bwysau sylweddol ac mae llawer yn delio ag effaith achosion cadarnhaol o COVID. Er mwyn sicrhau lles ein dysgwyr a'n staff, a sicrhau bod pob un ohonom yn gallu dathlu'r Nadolig gyda'n teuluoedd, mae angen i bob un ohonom weithredu'n gyfrifol dros yr wythnosau nesaf.

Gallaf gadarnhau bod gan ysgolion Sir Gar weithdrefnau llym ar waith i amddiffyn dysgwyr a staff, fodd bynnag, mae'n anochel, lle ceir achosion yn y gymuned, y gwelwn achosion yn ein hysgolion.

Nid yw'r effaith ar ysgolion Sir Gaerfyrddin cynddrwg â rhai siroedd eraill, fodd bynnag, ers mis Medi mae dros 53% o'n hysgolion wedi gorfod ymateb i achos COVID positif. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r tîm Profi Olrhain Diogelu i leihau'r grŵp cyswllt a chadw cymaint o'n dysgwyr â phosibl yn yr ysgol. Fodd bynnag, bu'n rhaid i lawer o ddysgwyr a staff hunan-ynysu am 14 diwrnod.

Mae rheoli ysgol ar hyn o bryd yn heriol iawn ac mae'n rhaid cydnabod gwaith arbennig arweinwyr ein hysgolion a'u staff sydd wedi gwneud i bethau weithio. Fodd bynnag, rhaid imi nodi hefyd fod llawer o staff wedi blino ac nad ydynt wedi cael seibiant gwirioneddol ers mis Medi. Rwy'n sylweddoli bod hyn yr un fath hefyd ar gyfer llawer o grwpiau rheng flaen eraill o staff.

Gyda nifer cynyddol o achosion mae llawer o faterion wedi dod i'r amlwg:

- Mae rhai grwpiau o ddisgyblion wedi gorfod hunan-ynysu sawl gwaith a fydd yn ddi-os wedi cael effaith arnynt.
- Pwysau ar staff ysgol yn gorfod darparu dysgu yn yr ysgol ac i'r rhai sy'n hunan-ynysu.
- Rheoli safle ysgol gyda chyfyngiadau Covid-19.
- Nifer cynyddol o achosion staff cadarnhaol neu staff yn gorfod hunan-ynysu gan arwain at faterion staffio.
- Effaith ar bresenoldeb yn yr ysgol.
- Her wrth gynnal gwydnwch a chymhelliant staff sydd wedi bod yn ymateb i heriau Covid-19 ers mis Mawrth.

Gareth Morgans, BAdd/BEed; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Gofynnwn yn garedig i chi weithio gyda ni i geisio sicrhau nad yw ein dysgwyr, staff a'n teuluoedd yn gorfod hunan-ynysu dros wyliau'r Nadolig. Bydd llai o achosion yn y gymuned yn golygu llai o achosion mewn ysgolion a fydd yn lleihau'r pwysau ar ein timau o ran olrhain cysylltiadau a lleihau'r niferoedd sy'n rhaid iddynt hunan-ynysu.

Gofynnwn i chi sicrhau bod eich plentyn/person ifanc yn cyfyngu ar ei gyswllt yn eich cymuned ac yn parchu'r cyngor ynghylch golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchuddion wyneb. Mae angen i bawb chwarae eu rhan i atal y lledaeniad.

I gloi, bydd teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn derbyn taliad am wyliau'r Nadolig fel y cytunwyd gan Lywodraeth Cymru, ond gallai hyn gymryd peth amser i'w brosesu.

Gofynnaf i bawb weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein hysgolion a sicrhau ein bod i gyd yn gallu dathlu'r Nadolig yn ddiogel gyda'n teuluoedd.

Diolch eto i chi am eich cefnogaeth,

Glynog Davies

Gareth Morgans

Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English